Partneriaeth Sgiliau Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region Skills Partnership

# Hydref Cylchlythyr ‘25





## Wrth i ni fyfyrio ar y tymor diwethaf, mae’n amlwg bod cydweithio ac arloesedd yn parhau i lunio’r dirwedd sgiliau ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Mae’r hydref hwn wedi bod yn gyfnod o gynnydd a dathlu - o lansiad llwyddiannus HiVE yng Nglynebwy, gan greu canolfan newydd ar gyfer peirianneg uwch a sgiliau ar gyfer y dyfodol, i ddigwyddiad Gyrfaoedd Gwyrdd Caerdydd a’r Fro, a gysylltodd ddysgwyr a cheiswyr gwaith â chyfleoedd yn y sector cynaliadwyedd sy’n tyfu.

Rydym hefyd wedi gweld camau pwysig yn cael eu cymryd tuag at lunio dyfodol prentisiaethau gydag **ymgynghoriad cenedlaethol** Medr yn paratoi’r ffordd ar gyfer system fwy hyblyg ac ymatebol, gan gynnig llwybrau dilyniant newydd i yrfaoedd gwerth uchel.

Uchafbwynt mis Tachwedd oedd de-ddwyrain Cymru yn cynnal rowndiau terfynol cystadleuaeth genedlaethol WorldSkills UK. Mae’r digwyddiad mawreddog hwn yn arddangos y dalent orau sy’n dod i’r amlwg ar draws disgyblaethau technegol a galwedigaethol, gan atgyfnerthu pwysigrwydd rhagoriaeth sgiliau ac ysbrydoli’r genhedlaeth nesaf.

Wrth i ni edrych ymlaen at y gaeaf a thu hwnt, mae ein ffocws yn parhau i fod ar adeiladu system sgiliau gynhwysol ac ystwyth sy’n diwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a’r economi.

Diolch i’n holl bartneriaid, grwpiau clwstwr a rhanddeiliaid am eich ymrwymiad a’ch cydweithrediad parhaus.

Dymunwn dymor cynhyrchiol a chadarnhaol i chi i gyd.

**Leigh Hughes**
**Cadeirydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau PSPRC**



RegionalSkillsPartnership@newport.gov.uk @CCR_RSP ccrsp.co.uk

# HiVE yn agor ei ddrysau: cyfnod newydd ar gyfer sgiliau ac arloesedd yng Nglynebwy

**Roedd agoriad swyddogol HiVE (Peirianneg Gwerth Uchel) ar 3 Tachwedd yn garreg filltir bwysig o ran adfywio Glynebwy.**

Wedi'i ariannu gan lywodraethau Cymru a'r DU a'i ddatblygu drwy bartneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Choleg Gwent - trwy Raglen y Cymoedd Technoleg - mae HiVE ar fin dod yn ganolfan ranbarthol ar gyfer sgiliau uwch, arloesedd a chyfleoedd.

Daeth y digwyddiad lansio ag arweinwyr lleol, gweinidogion y llywodraeth, a phartneriaid addysg a diwydiant ynghyd i ddathlu'r weledigaeth y tu ôl i HiVE.

Clywodd mynychwyr gan y cynghorydd John Morgan, Nikki Gamlin - Pennaeth/Prif Swyddog Gweithredol Coleg Gwent, Jo Stevens - Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Jack Sargeant AS, y Gweinidog dros ddiwylliant, sgiliau a phartneriaeth gymdeithasol. Yna aethant ar daith o amgylch y cyfleuster o'r radd flaenaf a phrofi'r arddangosiadau rhyngweithiol o dechnolegau blaengar.

Mae HiVE yn fwy nag adeilad, mae'n gam beiddgar tuag at ddiogelu'r gweithlu lleol yn y dyfodol.

Gyda ffocws ar beirianneg, roboteg, seiberddiogelwch a realiti estynedig, bydd y ganolfan yn darparu addysg o Lefel 2 i lefel gradd, yn cyd-fynd ag anghenion cyflogwyr a safonau Diwydiant 4.0.

Yn ystod y digwyddiad trosglwyddwyd ffagl rowndiau terfynol cenedlaethol WorldSkills UK, sy'n symbol o rôl HiVE wrth ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol medrus.

Fel canolfan ragoriaeth, bydd HiVE yn cefnogi dysgwyr, ysgolion a chyflogwyr fel ei gilydd - gan adeiladu dyfodol mwy disglair trwy gydweithio, creadigrwydd a sgiliau blaengar.

**Darllenwch fwy am y digwyddiad agoriadol ac am HiVE**





# Llunio dyfodol prentisiaethau yng Nghymru: Medr yn lansio ymgynghoriad cenedlaethol

Fel rhan o'i ymrwymiad i adeiladu system addysg drydyddol fwy hyblyg a chydweithredol, lansiodd Medr ymgynghoriad cenedlaethol i helpu i lunio dyfodol prentisiaethau yng Nghymru.

Gwahoddodd yr ymgynghoriad farn gan ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys dysgwyr, cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant ac awdurdodau lleol, ar ddylunio Rhaglen Brentisiaethau newydd a fydd yn cael ei lansio ar 1 Awst 2027.

Mae prentisiaethau yn cael eu cydnabod fel sbardun allweddol o gynhyrchiant ac yn llwybr hanfodol i ddatblygu gweithlu medrus, cynhwysol.

Mae **Cynllun Strategol Medr** yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer system sy'n ymateb i anghenion economi a chymdeithas sy'n newid ac mae'r ymgynghoriad hwn yn gam sylweddol tuag at wireddu'r nod hwnnw.

**Roedd y themâu allweddol a archwiliwyd yn yr ymgynghoriad yn cynnwys:**

- Diffiniad newydd o brentisiaethau.
- Taith y dysgwr prentis.
- Ymgysylltu â chyflogwyr a chyflawni mewn modd hyblyg.
- Fframweithiau sector ac ymateboldeb economaidd.
- Cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg.
- Hyrwyddo mynediad a chanlyniadau cynhwysol.

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori ar-lein ac wyneb yn wyneb trwy gydol mis Medi a Hydref. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau yn Venue Cymru yn Llandudno a Choleg Caerdydd a'r Fro a oedd yn cynnig cyfle i randdeiliaid rannu mewnwelediadau a llunio dyfodol darpariaeth prentisiaethau yng Nghymru.

Disgrifiodd James Owen, Prif Weithredwr Medr, yr ymgynghoriad fel: "cyfle unigryw i gyd-ddylunio system sy'n darparu rhagoriaeth, cydraddoldeb ac ymgysylltiad i bawb."

I ddysgu mwy am yr ymgynghoriad a gwaith ehangach Medr, ewch i **www.medr.cymru**



# Wythnos Dechnoleg Cymru 2025: arddangos arloesedd, talent a chyfleoedd ar lwyfan byd-eang

Dychwelodd Wythnos Dechnoleg Cymru i ICC Cymru yng Nghasnewydd ym mis Tachwedd. Daeth arweinwyr technoleg, arloeswyr, buddsoddwyr a'r rheiny sydd â diddordeb brwd mewn technoleg o bedwar ban byd ynghyd am dridiau o ysbrydoliaeth, cydweithredu a chyfleoedd.

Wedi'i phweru gan Technology Connected, Wythnos Dechnoleg Cymru yw uwchgynhadledd dechnoleg ryngwladol fwyaf y wlad ac mae wedi'i chynllunio i godi drych ar Gymru fel canolbwynt ar gyfer technolegau galluogi a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r digwyddiad yn cysylltu pobl, syniadau a diwydiannau i archwilio sut mae technoleg yn trawsnewid busnes, cymdeithas a'r economi.

**Mwynhaodd y rheiny a fu'n bresennol:**

- Siaradwyr o'r radd flaenaf - gan gynnwys y dyfodolydd Matthew Griffin, Aled Miles (Prif Swyddog Gweithredol Intellistack) ac arweinwyr Llywodraeth Cymru.
- Arddangosiadau technoleg ymarferol, arddangosfeydd a gweithdai rhyngweithiol.
- Sesiynau panel ar ddeallusrwydd artiffisial, seiberddiogelwch, lled-ddargludyddion cyfansawdd, ynni gwyrdd a mwy.
- Cyfleoedd rhwydweithio gyda busnesau newydd, busnesau sy'n tyfu, y byd academaidd a buddsoddwyr byd-eang.

***Sbotolau ar sgiliau a gyrfaoedd***

Roedd y diwrnod olaf yn cynnwys Talent4Tech, sef digwyddiad gyrfaoedd pwrpasol sy'n cysylltu dysgwyr a cheiswyr gwaith â chyflogwyr a darparwyr hyfforddiant yn y sector technoleg sy'n tyfu yng Nghymru.

Roedd yn gyfle allweddol i bobl ifanc a'r rheiny sydd am newid eu gyrfa archwilio llwybrau gwerth uchel a sgiliau lefel uchel ym maes digidol a thechnoleg.

***Dathlu arloesedd Cymreig***

Yn newydd ar gyfer 2025, cafodd y digwyddiad ei gloi gyda 10fed Gwobrau Technoleg Blynyddol Cymru i ddathlu'r unigolion a'r sefydliadau sy'n llunio dyfodol technoleg Cymru.

Mae Wythnos Dechnoleg Cymru yn cyd-fynd â chenhadaeth PSPRC i hyrwyddo sgiliau digidol, arloesedd a thwf cynhwysol ledled y rhanbarth. Mae'n ein hatgoffa o'r rôl y mae technoleg yn ei chwarae wrth ddatblygu gweithlu gwydn, sy'n barod i'r dyfodol.

Am ragor o wybodaeth ewch i **walestechweek.com**




# Archwilio gyrfaoedd gwyrdd: Caerdydd a'r Fro yn cynnal digwyddiad swyddi cynaliadwy

Ym mis Hydref, croesawodd Canolfan Gyrfa Cymru Caerdydd geiswyr gwaith, dysgwyr a rheiny sydd am newid gyrfa i ddigwyddiad gwybodaeth am yrfaoedd cynaliadwy, adnewyddadwy a gwyrdd bywiog, a gynhaliwyd gan Cymru'n Gweithio.

Daeth y digwyddiad â dros 20 o gyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a sefydliadau cymorth ynghyd i arddangos y cyfleoedd cynyddol mewn diwydiannau gwyrdd a chynaliadwy.

O ynni adnewyddadwy ac adeiladu i gadwraeth ac arloesi digidol, archwiliodd mynychwyr ystod eang o lwybrau gyrfa'r dyfodol.

Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys:

- Ymgysylltu â chyflogwyr sefydliadau fel Bute Energy, Ecotricity, Morgan Sindall Construction a'r Gwasanaeth Sifil.
- Cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaethau gan Goleg Caerdydd a'r Fro, Coleg y Cymoedd, ACT Training a Aspire Shared Apprenticeships.
- Opsiynau gwirfoddoli a phrofiad gwaith gyda grwpiau fel Cyfeillion y Ddaear a Garddwyr Cymunedol Caerdydd,
- Mynediad cynhwysol gydag awr dawel bwrpasol o 10–11am i gefnogi gwesteion niwrowahanol.

Disgrifiodd Mike Keohane, Rheolwr Tîm Gyrfa Cymru, y digwyddiad fel: "cyfle gwych i unrhyw un sydd â diddordeb mewn gyrfa ym maes diwydiannau gwyrdd neu gynaliadwyedd."

Roedd y digwyddiad yn adlewyrchu ffocws rhanbarthol cynyddol ar sgiliau sero net, datblygu cynaliadwy a llwybrau gyrfa cynhwysol, sef y themâu allweddol yng ngwaith parhaus PSPRC i alinio darpariaeth sgiliau ag anghenion economaidd y dyfodol.



# Rowndiau terfynol cenedlaethol WorldSkills UK 2025: dathlu rhagoriaeth sgiliau yn ne-ddwyrain Cymru

Roedd de-ddwyrain Cymru yn falch o gynnal Rowndiau Terfynol Cenedlaethol WorldSkills UK ym mis Tachwedd. Roedd yn ddigwyddiad mawreddog a oedd yn arddangos talent newydd gorau'r DU ar draws disgyblaethau technegol a galwedigaethol.

Rhoddodd y rowndiau terfynol gyfle rhagorol i gyflogwyr, addysgwyr a rhanddeiliaid weld rhagoriaeth sgiliau ar waith ac ymgysylltu â gweithlu'r dyfodol.

Cynhaliwyd cystadlaethau mewn pum lleoliad, gan gynnwys disgyblaethau fel:

- **Peirianneg a thechnoleg** - roboteg, weldio, cynnal a chadw awyrennau, rhaglennu CNC.
- **Digidol a chreadigol** – cyfrifiadura cwmwl, seiberddiogelwch, cynhyrchu cyfryngau digidol.
- **Iechyd a ffordd o fyw** – iechyd a gofal cymdeithasol, trin gwallt, celfyddydau coginio, harddwch a cholur SFX.
- **Adeiladu a seilwaith** – gosodiadau trydanol, tirlunio, plymio, adeiladu digidol.

Er mwyn gwneud y digwyddiad yn hygyrch, cynigiwyd sesiynau ffrwd fyw sector-benodol trwy gydol yr wythnos, gan alluogi grwpiau clwstwr i gysylltu â chystadlaethau oedd yn cyd-fynd â'u diwydiannau.

Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd sesiynau ar gyfer digidol a chreadigol, peirianneg a thechnoleg, iechyd, lletygarwch a ffordd o fyw, ac adeiladu a seilwaith.

Rhoddodd teithiau tywys a sesiynau rhyngweithiol fewnwelediadau gwerthfawr i'r mynychwyr i safonau cystadleuaeth, cyfleusterau, a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Yn ogystal â dathlu talent arbennig, roedd y rowndiau terfynol hefyd yn atgyfnerthu pwysigrwydd llwybrau galwedigaethol wrth adeiladu gweithlu medrus ar gyfer y dyfodol.

Dangosodd y digwyddiad nodedig hwn ymrwymiad Cymru i ddatblygu sgiliau a chydweithio, gan danlinellu ei rôl fel canolfan ar gyfer arloesi a rhagoriaeth.

Gan adeiladu ar lwyddiant cystadlaethau WorldSkills UK yn genedlaethol, mae gan Gymru ei rhaglen ffyniannus ei hun o'r enw Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru.

Mae'r prosiect hwn yn cynnal Cystadleuaeth Sgiliau Cymru, sy'n dod â myfyrwyr o golegau, darparwyr hyfforddiant a phrentisiaid ledled Cymru ynghyd i arddangos eu sgiliau mewn 65 o wahanol gystadlaethau bob blwyddyn.

Er bod cofrestru ar gyfer eleni bellach wedi cau, bydd y cystadlaethau yn cael eu cynnal ym mis Chwefror a byddant yn gyfle gwych i ddathlu talent Cymru. Mae Cymru wedi perfformio'n dda yn gyson yn y rowndiau terfynol cenedlaethol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan dynnu sylw at effaith y prosiect ar ddatblygu sgiliau Cymru.

Dysgwch fwy yn https://inspiringskills.gov.wales/

